

RYGBI 7 BOB OCHR | SEVENS RUGBY

NOS WENER, 14^{EG} MEHEFIN 2019

Rygbï 7 bob Ochr – Clwb Rygbï Llambled am 6.30yh

RHEOLAU CYFFREDINOL

1. Pan fo'n bosib, chwaraeir y gemau ar ffurf dau gynghrair, gyda'r ddau dîm gorau o bob gynghrair yn chwarae yn y rownd gyn-derfynol h.y. Grŵp 1A yn erbyn Grŵp 2B a Grŵp 2A yn erbyn Grŵp 1B.
2. **SYSTEM GYNGHRAIR**
 - (a) Wrth gyrraedd rhoddir llythyren i bob tîm e.e A - Bryngwyn, B - Caerwedros ayb.
 - (b) Os bydd mwy na 5 tîm yn cystadlu, fe'u rhennir yn 2 grŵp - e.e. 8 tîm - 2 grŵp o 4.
 - (c) Os mai un grŵp yn unig sydd, y tîm buddugol fydd yr un â fwyaf o bwyntiau.
 - (ch) Dyfernir canlyniad grŵp ar sail cynghrair, h.y 2 bwynt am ennill, 1 pwynt am gêm gyfartal, 0 pwynt am golli.
 - (d) Pan geir gêm gyfartal mewn grŵp, cymerir i ystyriaeth nifer y ceisiau a sgorir. Os bydd nifer y ceisiau yn gyfartal, dyfernir yr ennillydd gan reolwr y gêm.
 - (dd) Os bydd tîm yn tynnu'n ôl ar ôl cychwyn gêm, bydd yn rhaid i gaptyn y tîm ynghyd â stiward y gystadleuaeth hysbysu'r Trefnydd Sir ar unwaith.
3. Rhaid i bob cystadleuydd ddangos eu Cardiau Aelodaeth plastig i'r stiwardiaid a fydd yng nghofal y chwaraeon cyn dechrau'r gystadleuaeth.
4. Bydd yn ofynnol i bob cystadleuydd fod yn aelod gweithgar o'r Mudiad, ac wedi talu tâl aelodaeth am y flwyddyn, a bod yn 26 mlwydd oed neu o dan hynny (neu'r oedran a osodir yn y rheolau unigol) ar 1af o Fedi 2017.
5. Ni ohirir unrhyw gêm ar gyfer cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr.
6. Caniateir eilyddion (os ydynt o fewn y grŵp oedran priodol)
Chwaraewyr wedi'u hanafu: Gall eilydd gymryd lle chwaraewr sydd wedi'i anafu ar unwaith, a bydd yr eilydd yn parhau yn y gêm hyd ddiwedd y rownd arbennig honno. Yna gall y chwaraewr sydd wedi'i anafu ail gymryd ei le mewn unrhyw gêm arall.
Chwaraewyr a "anfonir o'r maes": Os anfonir chwaraewr o'r maes, bydd y tîm yn parhau i chwarae heb y chwaraewr hynny hyd ddiwedd y gêm honno. Caniateir i eilydd chwarae yn y gêm nesaf ac mewn unrhyw gêm ddilynol. Ni all chwaraewr sydd "wedi anfon o'r maes" gymryd unrhyw ran bellach yng nghêm (au) y diwrnod hwnnw.
7. Dylid anfon y Ffurflen Bwriad Cystadlu yn ôl i'r swyddfa erbyn y dyddiad cau.
8. Gofynnir i ddyfarnwyr a stiwardiaid gymryd y camau priodol os tynnir gwarth ar unrhyw gêm.
9. Rhaid cyflwyno pob cwyn cyffredinol ar bapur i'r Trefnydd Sir o fewn 30 munud i'r gystadleuaeth orffen. Bydd Pwyllgor sy'n cynnwys swyddogion y Sir yn penderfynu sut i weithredu, os oes angen. Bydd penderfyniad y swyddogion yma yn derfynol.
10. Atgoffir Clybiau mai diogelu'r Clybiau a'r Aelodau ar gyfer Cyfrifoldeb Cyfreithiol Trydydd Parti yn unig mae Polisi C.Ff.I. Ceredigion, a chynghorir y Clybiau i wneud eu trefniadau eu hunain ynglyn â Chyfrifoldebau Personol.

RYGBI 7 BOB OCHR | SEVENS RUGBY

NOS WENER, 14^{EG} MEHEFIN 2019

CYSTADLEUAETH RYGBI 7 BOB OCHR

RHEOLAU

1. Chwaraeir y gêm yn unol â rheolau Undeb Rygbi Cymru.
2. Cynrychiolir y Clybiau gan un tîm yng Nghystadleuaeth y Sir.
3. Cymhwyster - Carfan o ddeg chwaraewr gwrywaidd, a rhaid iddynt fod yn 26 mlwydd oed ar y 1af o Fedi 2018. Rhaid i bob chwaraewr fod yn 18 mlwydd oed ar yr 14ain o Fehefin 2019 i fod yn gymwys i chwarae ac yn aelodau llawn o Glwb sy'n perthyn i FfCCFfi. Dewisir saith chwaraewr i ffurfio'r tîm ar gyfer pob gêm.
4. Rhaid i bob chwaraewr gyflwyno'i gerdyn aelodaeth i'r Stiward cyn cychwyn y gystadleuaeth. Bydd yna ddirwy o £5 am bob aelod sy'n methu dangos eu cardiau.
5. **TREFN:-** Yn dilyn derbyn ffurflenni cais wrth y Clybiau caiff trefn y cystadlu ei wneud yn y swyddfa. Trefnir y gystadleuaeth felly ar y llinellau yma:

Chwaraeir y gemau grŵp am 7 munud bob ochr, gydag egwyl o ddwy funud. Chwaraeir y gêm derfynol hefyd am 7 munud bob ochr gydag egwyl o ddwy funud.
6. Gall tîm newid chwaraewr o gêm i gêm, ond nid oes hawl newid chwaraewr yn ystod y gêm, heblaw pan ceir achos o anaf a rhaid cael caniatad y dyfarnwr. Nid oes hawl gan chwaraewr chwarae eto yn y gêm wedi iddo adael y cae yn dilyn anaf, a fod rhywun arall wedi cymryd ei le. Nid oes hawl newid mwy na tri chwaraewr yn ystod gêm.
7. Rhaid cael o leiaf 3 chwaraewr ar bob ochr i ffurfio sgrym.
8. Dylai'r cystadleuwyr fod wedi'u gwisgo'n addas, h.y. siorts, sanau ac esgidiau rygbi. Bydd y dyfarnwr yn sicrhau bod yr esgidiau'n cydymffurfio â rheolau Undeb Rygbi Cymru.
9. Os anfonir chwaraewr o'r cae gan y dyfarnwr, yna ni fydd yn medru cymryd unrhyw ran pellach yn y gystadleuaeth.
10. Bydd dyfarniad y Dyfarnwr yn derfynol ar unrhyw anghydfod.
11. Os y dyfarnwr unrhyw aelod i fod o dan ddylanwad alcohol, yna bydd gan y stiwardiaid yr hawl i atal unrhyw aelod rhag gystadlu.
12. Rhaid rhoi gwybod i'r Trefnydd Sir o flaen llaw os nad yw'r aelod yn medru cynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol.

RYGBI 7 BOB OCHR | SEVENS RUGBY
NOS WENER, 14^{EG} MEHEFIN 2019

7 A'SIDE RUGBY COMPETITION

RULES

1. The game shall be played in accordance with the laws of the Welsh Rugby Union.
2. Clubs will be represented by one team in the County Final.
3. Eligibility - A squad of ten male members, all of whom must be 26 years of age on 1st September 2018. All players must be 18 years of age by the 14th of June 2019 to be eligible to play. All members must be full members of a Club affiliated to NFYFC. Seven players shall be chosen to form the team for each game.
4. Membership cards of every competitor must be produced and shown to the steward before the start of the competition. A £5.00 penalty charge will be made for members failing to produce their card.
5. **PROCEDURE** - Following entries from Clubs, a draw will be made in the office. The competition will then be held along the following lines:

Duration of play will be 7 minutes each way in group matches with a two minute interval. The final will also be 7 minutes each way with a two minute interval.
6. A team may change its players from game to game, but no player may be replaced during a game, except where, with the approval of the referee, a player who has left the field through injury, and has been replaced, may not play again in that match. A maximum of three players in a team may be replaced during a game.
7. A scrummage will be formed by not less than three players on each side.
8. All competitors will be suitably dressed, i.e. shorts, socks and boots. Referee to check all boots to conform with the regulations of the Welsh Rugby Union.
9. A player who is 'sent off' by the referee shall take no further part in the competition.
10. The referee shall be the sole arbiter on points of dispute.
11. If any member is believed to be under the influence of alcohol, stewards will have the authority to refuse the member from competing.
12. Clubs must notify the County Organiser beforehand if members are not able to compete at the Royal Welsh.